# Gwirfoddolwyr Casgliadau Amgueddfa Lechi Cymru

**Pwrpas y rôl:** Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn cael ei hailddatblygu ac fel rhan o hyn mae'r casgliad yn symud! Tra bod gwaith cadwraeth hanfodol yn digwydd yn y Gilfach Ddu, bydd rhannau o'r casgliad yn cael eu pacio a'u symud i sicrhau eu diogelwch. Fel gwirfoddolwr dan oruchwyliaeth staff byddwch yn:

- tynnu llwch a baw, gan ddefnyddio brwshys a/neu sugnwyr llwch,
- lapio arteffactau mewn papur sidan a'u pacio mewn bocsys,
- helpu ni i gynnal ein cofnodion casgliadau a'n catalogau.

**Lleoliad:** Amgueddfa Lechi Cymru, neu Bangor

**Oedran:** 16+

**Adran:** Casgliadau ac Ymchwil

**Dyddiad Cau :** 13 Medi 2024

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sydd eisiau profiad ymarferol o drin arteffactau a chasgliadau,
- sy'n mwynhau tasgau/projectau sydd â dechrau a diwedd,
- sy'n hapus i wisgo menig, masg a chyfarpar diogelu personol arall wrth wirfoddoli.

**Ystyriaethau:** Darperir hyfforddiant ac asesiadau risg. Gall rhai tasgau fod yn ailadroddus/myfyriol – er cewch ddigon o egwyliau. Bydd y gwirfoddoli yn digwydd i fyny'r grisiau yn y Llofft Batrwm, sydd ddim yn ofod hygyrch yn bresennol.

**Oriau ac Ymrwymiad:** Cynhelir sesiwn hyfforddiant gorfodol ar 20 Medi, 10:30-13:00. Bydd gwirfoddoli yn digwydd ar ddyddiau Mawrth neu Iau, 10:00-13:00, ar gylchdro wythnosol. Rhowch wybod pa ddiwrnod sydd fwyaf addas i chi yn eich ffurflen gofrestru.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Y buddion i'n girfoddolwyr:
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

